*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18/06/2018** |
| Aelod sy'n Adrodd | **Y Cyng. Peter Lewis/<br>Y Cyng. Meirick Lloyd Davies** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)<br>01745 535286** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Cyflwyno argymhelliad y Panel Gweithredol am y cam nesaf o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod Tân ac Achub (ATA) 2019/20, a chytuno ar seiliau ymgynghoriad yr ATA â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod haf 2018.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Dros y blynyddoedd diweddar o gyni ariannol yn y sector cyhoeddus, mae'r ATA wedi llwyddo o osod cyllideb fantoledig bob blwyddyn i gwrdd â'r costau a amcangyfrifir wrth ddarparu gwasanaethau tân a achub yng Ngogledd Cymru ond hefyd yn cyfyngu'r effaith ar gyllidebau'r awdurdodau lleol.

3. Mae darparu gwasanaethau tân ac achub yn cyfeirio'n bennaf at:

- ymateb 'golau glas' i danau ac argyfyngau eraill;
- gwaith ataliol yn y gymuned;
- gorfodi trefniadau diogelwch tân ar safleoedd perthnasol; a
- gwaith argyfyngau sifil fel ymatebydd 'categori un' i argyfyngau mawr.

Mae'r gost o alluogi a chefnogi'r gwasanaethau hynny hefyd wedi'i chynnwys.

4. Mae un agwedd ar osod cyllidebau mantoledig wedi golygu cael mwy na £3 miliwn o ostyngiad (tua 10% o'i gyllideb refeniw) yng nghostau rhedeg yr ATA a 9% o ostyngiad yng ngweithlu'r Gwasanaeth. Ond er gwaethaf yr arbedion hyn, mae cost darparu gwasanaethau tân ac achub wedi cynyddu'n raddol.

5. Strategaeth arall a ddefnyddiwyd i osod cyllideb fantoledig oedd dyrannu arian o gronfeydd ariannol wrth gefn yr ATA ei hun i ymorol am y prinder thwng cost wirioneddol darparu gwasanaethau tân ac achub a'r cyfraniadau ariannol a ddaw gan yr awdurdodau lleol.

6. Effaith gronnol y ddibyniaeth hon ar gronfeydd wrth gefn i dalu costau cynyddol yw bod yr ATA nawr yn wynebu prinder o bron i £1.9 miliwn o gymharu â'r gofyniad o £35.4 miliwn a amcangyfrifir ar gyfer y gyllideb ac mae ei gronfeydd ariannol yn nesáu at y lefel isaf yr ystyrir ei bod yn ddoeth i'w dal.

7. Felly, er mwyn gosod cyllideb fantoledig ar gyfer 2019/20, mae'r ATA yn wynebu dewis, sef:

- o gwneud gostyngiadau pellach yng nghostau rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub; neu
- o gynyddu'r cyfraniadau y mae'r ATA yn eu cael gan yr awdurdodau lleol; neu
- o gyfuniad o'r ddau.

8. Cyn penderfynu'n derfynol ar ei strategaeth ariannol, bydd angen i'r ATA ganiatáu cyfnod o ymgynghori er mwyn i randdeiliaid gyflwyno eu barn ynglŷn â'r ffordd orau o sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu costau'r ATA a amcangyfrifir yn 2019/20 (cyllideb fantoledig).

9. Yn Rhagfyr 2017 cytunodd yr ATA y byddai Gweithgor Cynllunio, yn cynnwys pob aelod o'i Banel Gweithredol, yn cynnal y gwaith manwl sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun yr ATA ar gyfer 2019/20.

10. Dros gyfnod o bum cyfarfod, bu'r aelodau'n ystyried yr heriau tebygol sy'n deillio o'r diffyg a ragwelir yng nghyllideb yr ATA yn 2019/20 ac edrych ar amrywiaeth o ffyrdd posibl o sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub yn gynaliadwy yng Ngogledd Cymru.

11. Ar ôl dod i'r casgliad mai dim ond tair ffordd a oedd ar gael, yn fras, sef – cynyddu'r cyfraniadau, gostwng costau neu gyfuniad o'r ddau – roedd y Gweithgor yn dal heb benderfynu pa un o'r opsiynau (os o gwbl) y gallai ei argymell er mwyn lleihau'r costau rhedeg yn sylweddol.

12. Felly, penderfynodd y Gweithgor ohirio'r penderfyniad tan gyfarfod y Panel Gweithredol ar 14 Mai 2018 fel y gallai'r aelodau dderbyn neu wrthod pob opsiwn yn ffurfiol yn eu trefn a chytuno ar beth i'w argymell i'r ATA llawn.

13. Yn gryno, roedd yr opsiynau ar gyfer gwneud gostyngiadau mawr yn y costau rhedeg yn gysylltiedig â mabwysiadu un neu ragor o'r canlynol:

- tynnu'r ail beiriant tân amser cyflawn o Wrecsam;
- newid oriau'r ail beiriant tân yn Wrecsam i ofalu am oriau'r dydd yn unig, ac nid dros nos;
- troi gorsafoedd shifftiau 24 awr Glannau Dyfrdwy a/neu'r Rhyl yn orsafoedd staff dydd yn unig (a throi'n ofal RDS yn unig dros nos);

- troi un neu ragor o orsafoedd criw dydd yn orsafoedd y system RDS (ar gael yn ôl y galw);
- dileu'r lwfansau criw dydd sy'n cael eu talu ar hyn o bryd i ddiffoddwyr tân criw dydd;
- cau un neu ragor o orsafoedd tân y system RDS;
- tynnu'r peiriant RDS o un neu ragor o'r wyth gorsaf amser cyflawn.

14. Ar ôl trafod yr opsiynau am amser maith, penderfynodd yr aelodau beidio ag argymell ymgynghori ynglŷn ag unrhyw un o'r uchod oherwydd yr effaith y byddai pob un yn ei chael ar lefel gyffredinol y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

15. Felly, penderfynodd y Panel Gweithredol argymell ymgynghori ar ddwy o'r ffyrdd, sef naill ai:

a) gael holl swm y diffyg – sef bron i £1.9 miliwn – o gynnydd yng nghyfanswm y cyfraniad cyfunol gan yr awdurdodau lleol yn 2019/20 ac felly gadw lefelau cyfredol y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru; NEU

b) gynyddu cyfanswm y cyfraniad cyfunol gan yr awdurdodau lleol yn 2019/20 fymryn llai na holl swm y diffyg, a fyddai hefyd yn sicrhau bod y lefelau cyfredol o wasanaethau tân ac achub yn cael eu cadw ond bod angen arbedion effeithlonrwydd ar raddfa na fyddai'n golygu bod angen mesurau fel cau gorsafoedd tân, tynnu peiriannau tân neu ddiswyddo diffoddwyr tân.

**ARGYMHELLION**

16. Bod yr ATA yn ymgynghori â'r cyhoedd dros haf 2018 ar strategaeth ariannol yn seiliedig nail ai ar:

**a)** gynyddu cyfanswm y cyfraniad cyfunol gan yr awdurdodau lleol rhyw £1,893,000 yn 2019/20 ac felly gadw lefelau cyfredol y gwasanaethau tân ac achub; NEU

**b)** gynyddu cyfanswm y cyfraniad cyfunol gan yr awdurdodau lleol fymryn llai na £1,893,000 yn 2019/20 ac felly gadw'r prif wasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru ond bod angen gwneud rhai arbedion.

17. Os bydd yr ATA yn penderfynu peidio â derbyn argymhelliad y Panel Gweithredol, ac y bydd yn dymuno ymgynghori ar drydydd opsiwn hefyd, sef gostwng lefelau gwasanaethau tân ac achub a chyfyngu ar unrhyw gynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol i lefel llawer is na £1,893,000, byddai angen i'r aelodau ddweud pa wasanaeth(au) y byddai'r ATA yn ystyried eu lleihau (gweler Atodiad 8) fel bod modd esbonio hyn yn ddigonol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

18. Mae argymhellion y Panel Gweithredol wedi cael eu cynnwys mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

19. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 4 Mehefin 2018, cyfeiriwyd at y term 'mymryn llai na £1,893,000' a'r fantais o ddiffinio hynny'n fwy manwl.

20. Teimlai aelodau'r Pwyllgor Archwilio hefyd y byddai angen iddynt, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus, gael mwy o wybodaeth am y pwnc nag a roddwyd iddynt yn yr adroddiad cryno i'r Pwyllgor Archwilio. Felly mae'r adroddiad hwn i'r ATA llawn yn atgynhyrchu gwybodaeth a ddarparwyd eisoes i'r Panel Gweithredol.

## CEFNDIR

Dyletswydd cynllunio'r ATA, ac amserlen

21. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi amcanion gwella blynyddol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009. Rhaid iddo hefyd gyhoeddi amcanion llesiant tymor hir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

22. Er mwyn cael Cynllun yn ei le erbyn Ebrill 2019/20 bydd angen i'r Awdurdod fod wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar ei strategaeth arfaethedig dros yr haf a bod wedi gosod ei gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf erbyn Rhagfyr 2018. Yna, bydd modd paratoi Cynllun drafft 2019/20 i'w gymeradwyo'n derfynol gan yr ATA ym mis Mawrth 2019.

23. Yn Atodiad 1, mae amserlen gryno yn rhestru'r camau ar gyfer paratoi Cynllun yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 a'i waith cysylltiedig yn gosod y gyllideb i gefnogi ei waith.

Sut mae ATA Gogledd Cymru yn cael ei ariannu

24. Mae ATA Gogledd Cymru yn derbyn ei gyllideb refeniw ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub drwy gyfraniadau ariannol tuag at gyfanswm y gost gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â'r amcangyfrif o faint eu poblogaeth (gweler Atodiad 2).

25. Mae'r ATA yn gweithredu ar sail cyllideb fantoledig, ac ystyr hynny yn fras yw codi digon o arian ar gyfer y flwyddyn i dalu ei wariant refeniw yn ystod y flwyddyn. Bydd maint cyllideb yr ATA yn pennu maint ac ansawdd y gwasanaethau tân ac achub y mae'n gallu eu darparu ac i ba raddau y mae angen unrhyw arbedion effeithlonrwydd er mwyn osgoi costio mwy nag sydd ar gael.

26. Dan delerau Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Cynllun Cyfuno) 1995 (gweler Atodiad 3) rhaid i'r ATA gyflwyno amcangyfrif i'w awdurdodau cyfansoddol o'i wariant net ar gyfer 2019/20 erbyn 31 Rhagfyr 2018, ac yna gadarnhau'r swm gwirioneddol cyn 15 Chwefror 2019.

27. Petai'r ATA yn wynebu diffyg annisgwyl yn ei gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn, mae telerau'r Gorchymyn Cyfuno yn caniatáu ar gyfer adfer diffyg o'r math hwn drwy ardoll atodol ar yr awdurdodau lleol.

Sut mae ATA Gogledd Cymru wedi rheoli ei gyllideb ers 2011/12

28. Am y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf, mae'r cyni ariannol yn y sector cyhoeddus wedi effeithio'n ddifrifol ar ATA Gogledd Cymru. Ers 2011/12, mae'r ATA wedi gwneud mwy na £3 miliwn o arbedion o'r gyllideb refeniw (tua 10%) ac mae wedi gweld gostyngiad o 9% yng ngweithlu'r Gwasanaeth.

29. Mae newidiadau i'r Gwasanaeth (gweler Atodiad 4) wedi cynnwys: lleihau cyllidebau staff; ailstrwythuro, dileu swyddi rheoli; trosglwyddo swyddi i delerau ac amodau gwahanol; a chanslo/lleihau gwariant a gynlluniwyd. Llwyddwyd i wneud llawer o'r newidiadau – yn enwedig y rhai yn y blynyddoedd cyntaf o gyni – heb fawr o effaith amlwg ar y gwasanaethau ymateb brys traddodiadol. Ond yn y diwedd, cyflwynwyd newidiadau yr oedd y cyhoedd yn gallu eu gweld (e.e. newid y polisi ar ymateb i alwadau a ddaw gan larymau tân awtomatig, a rhoi'r gorau i ymateb i alwadau'n ymwneud ag achub anifeiliaid ac achub â rhaffau).

30. Mae ATA Gogledd Cymru wedi cyfrannu at y mesurau cyni drwy rewi ei gyllideb rhwng 2011/12 a 2014/15 a gwneud arbedion esmwytho'r cynnydd a ragwelir yn y costau. Yn 2015/16, cafwyd cynnydd bach o ryw £113k. Yn 2016/17, yn hytrach na chynyddu cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol, neilltuodd yr ATA £740,000 o gronfeydd wrth gefn i danategu diffyg a ragwelid yn ei gyllideb y flwyddyn honno.

31. Yn ystod 2016, penderfynodd yr ATA newid ei strategaeth wreiddiol, sef rhewi ei gyllideb, i gyllideb ariannol a oedd yn cyfuno tair elfen, sef defnyddio cronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau. Cafodd hyn ei wneud ar y sail na fyddai cynyddu'r bwlch cyllido a lleihau cronfeydd wrth gefn yn rhywbeth cynaliadwy fel strategaeth.

32. Argymhelliad y Panel Gweithredol i'r Awdurdod llawn ym Mehefin 2016 oedd y dylai'r ATA, o ragweld bwlch cyllido gwerth £2.26 miliwn erbyn 2019/20 a chronfeydd yn lleihau, fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd a fyddai'n gweld £1.36 miliwn o gynnydd yn y cyfraniadau, a gweld £0.9 miliwn o leihad yng nghostau rhedeg y gwasanaeth tân ac achub.

33. Cydnabuwyd y byddai cael £900,000 o ostyngiad yn y costau rhedeg yn siŵr o olygu gostwng nifer y diffoddwyr tân sy'n cael eu cyflogi, gan olygu y byddai hyn angen amser i ddigwydd. Yn gyndyn iawn, daeth yr aelodau i'r casgliad mai tynnu'r ail beiriant tân llawn amser o Wrecsam a dadsefydlu 24 o swyddi fyddai'r opsiwn "lleiaf gwael" i wneud yr arbedion angenrheidiol ond roeddent wedi'u bodloni bod y proffil ymddeol a ddisgwylir dros y ddwy neu dair blynedd nesaf yn golygu bod y gostyngiad hwn yn bosibl heb fod angen dileu swyddi diffoddwyr tân amser cyflawn yn orfodol. Daeth yr aelodau ar y pryd i'r casgliad hefyd fod yr opsiwn hwn yn gynnig mwy derbyniol na chael gwared ar ofal tân o gymunedau cyfan drwy gau 8-10 o orsafoedd tân RDS a dileu swyddi diffoddwyr tân RDS yn orfodol.

34. Byddai'r strategaeth dair blynedd newydd hon yn addas ar gyfer yr Awdurdod rhwng 2017/18 a 2019/20. Ac er y byddai'n golygu cynnydd sylweddol yn y cyfraniadau yn 2017/18 (o ryw £1.36 miliwn) byddai hyn yn cael ei ddilyn gan ddwy flynedd (2018/19 a 2019/20) o gyllideb wedi'i rhewi wrth i'r gostyngiadau i wasanaethau gael effaith.

35. Yn Rhagfyr 2016, gan wynebu costau ychwanegol annisgwyl (e.e. yr ardoll prentisiaethau) bu'r ATA yn ystyried cynnig i gael £1.7 miliwn o gynnydd yn y cyfraniadau (+5.3%) ar gyfer 2017/18 – sef £414,000 yn fwy nag a drafodwyd yn wreiddiol. Yn hytrach, penderfynodd yr ATA gyfyngu'r cynnydd i £1.275 miliwn (+4%) a neilltuo £414,000 o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r diffyg yn y flwyddyn honno. Yn hytrach na rhewi'r gyllideb yn 2018/19, gellid edrych eto, yn nes at yr amser, ar yr angen am £414,000 arall (sy'n cyfateb i'r 1.3% sy'n weddill).

36. Ym mis Mawrth 2017, o wynebu rhywfaint o wrthwynebiad i'r posibilrwydd o dynnu un peiriant amser cyflawn o orsaf dân Wrecsam, fe wnaeth yr ATA dynnu'r opsiwn o wneud hyn fel ffordd o gael £0.9 miliwn o ostyngiad yn y costau rhedeg, a gadael unrhyw benderfyniad ynglŷn â gostwng gwasanaethau i'r ATA a fyddai'n bodoli ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017.

37. Ym mis Rhagfyr 2017, bu'r ATA newydd yn ystyried y strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer 2018-21 a'r gofyniad a amcangyfrifir o ran y gyllideb, sef £978,300 yn ychwanegol yn 2018/19. Roedd adroddiad y Trysorydd yn cyfeirio at bwysau costau yn y dyfodol, gan gynnwys ailbrisio cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn 2018 a'r gwariant sy'n gysylltiedig â symud i systemau cysylltiadau cenedlaethol newydd. Dewisodd yr ATA ariannu'r gofyniad ychwanegol drwy gael £331,600 (1%) o gynnydd yn y cyfraniadau, a dyrannu'r £646,700 sy'n weddill o gronfeydd wrth gefn.

Gwaith ymgysylltu ATA Gogledd Cymru â'r cyhoedd

38. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei amcanion gwella, mae disgwyl i'r ATA ganiatáu amser i unrhyw un sydd â diddordeb gyflwyno ei farn cyn i unrhyw gynlluniau gael eu cwblhau'n derfynol.

39. Mae'r broses ymgysylltu ac ymgynghori yn cael ei hystyried yn elfen bwysig o'r gwaith o lunio'r amcanion drafft cyn iddynt gael eu mabwysiadu. Byddai methu ag ymgynghori'n briodol yn unol ag Egwyddorion Gunning (gweler Atodiad 5) yn gwneud yr ATA yn agored i'r perygl o her gyfreithiol i'w gynllun.

40. Er nad oes rheolau llym am hyd cyfnodau ymgynghori, ystyrir bod 12 wythnos yn ddigon o amser yn y rhan fwyaf o achosion. Yn amlwg, dylid ystyried pa mor ddifrifol neu arwyddocaol yw'r llwybr sy'n cael ei gynnig.

41. Rhaid ymgynghori â'r cyhoedd mewn ffordd deg, gyda meddwl agored a digon o esboniad er mwyn cael ystyriaeth ac ymateb deallus. Yna, rhaid i'r ATA ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad mewn modd cydwybodol cyn mabwysiadu cynigion yn ffurfiol.

42. Yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2018, fe wnaeth y Panel Gweithredol gefnogi strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori i ategu'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr ATA ar gyfer 2019/20. Bydd ymgynghoriad, drwy amrywiaeth o gyfryngau, yn cael ei gynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018, felly bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbys cyn i'r ATA osod ei gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2018.

43. Dylai lefel yr ymgynghoriad adlewyrchu lefel yr effaith y byddai'r llwybr sydd dan ystyriaeth yn debygol o'i chael. Po fwyaf yr effaith a ddisgwylir, y mwyaf yw'r angen i ymgynghori â'r bobl y byddai hynny'n effeithio arnynt.

Gweithgor Cynllunio ATA Gogledd Cymru

44. Ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub y byddai Gweithgor Cynllunio, yn cynnwys pob aelod o'i Banel Gweithredol (gweler Atodiad 6), yn gwneud y gwaith manwl sy'n gysylltiedig â datblygu ei amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2019/20.

45. Yn ystod cyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio, mae'r aelodau wedi cael cyflwyniadau a gwybodaeth am sefyllfa ariannol yr ATA ac maent wedi ystyried amrediad o opsiynau posibl ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy. Yn atodiad 7, ceir crynodeb o'r materion a gafodd eu hystyried yng nghyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio.

**GWYBODAETH**

Y sefyllfa ariannol

46. Dros y blynyddoedd diweddar o gyni ariannol yn y sector cyhoeddus, mae ATA Gogledd Cymru wedi mabwysiadu nifer o strategaethau i helpu i reoli costau, ac yn bwysicach, i gyfyngu ar yr effaith ar gyllidebau'r awdurdodau lleol.

47. Wrth nesáu at 2019/20, mae'r ATA yn wynebu effaith gronnol penderfyniadau'r gorffennol i ariannu diffygion drwy gronfeydd wrth gefn nad oeddent wedi cael eu dyrannu, codiadau cyflog a chwyddiant cyffredinol dros amser, a'r penderfyniad i beidio â dechrau cynllunio i sicrhau £900,000 o ostyngiad yn y costau rhedeg fel y bwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer 2018/19.

48. Yn ôl yr amcangyfrifon gorau o gostau rhedeg (refeniw) y flwyddyn nesaf, bydd cynnydd o £34,140,000 yn 2018/19 i £35,386,000. Dyma gynnydd o £1,246,000 yn y costau. Ond, mae'r ddibyniaeth ddiweddar ar gronfeydd wrth gefn yn golygu mai £1,893,000 yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y cyfraniadau yn 2018/19 (£33,493,000) a chost y gwasanaethau yn 2019/20 (£35,386,000) mewn gwirionedd.

49. Er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ddyfais bosibl ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau cyllidebol, nid yw'r ffynhonnell gyllid hon yn cael ei hadnewyddu bob blwyddyn yn yr un ffordd ag y mae'r gyllideb refeniw. Felly, oni bai fod y costau rhedeg yn cael eu gostwng y flwyddyn wedyn, bydd cyllideb y flwyddyn honno yn gweld cynnydd yn y swm a oedd wedi cael ei thanategu gan y cronfeydd wrth gefn.

50. Erbyn diwedd 2017/18 roedd gan yr Awdurdod £2,057,000 o gronfeydd heb eu neilltuo. Roedd yr aelodau eisoes wedi cymeradwyo'r defnydd o £647,000 o'r cronfeydd hynny fel rhan o ofyniad y cyllideb ar gyfer 2018/19.

51. Yn ôl y rhagolygon ariannol, erbyn diwedd Mawrth 2019, bydd cronfeydd yr ATA wedi gostwng i £1,410,000, sy'n llai na'r diffyg a ragwelwyd, sef £1,893,000 ar gyfer 2019/20.

52. Felly, ni ddylid ystyried bod defnyddio cronfeydd wrth gefn yn strategaeth ariannu gynaliadwy ar gyfer meysydd gwariant sy'n codi dro ar ôl tro. Yn ddelfrydol, dylai cronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio i ddelio â phwysau sy'n deillio o gynnydd yn y gwaith neu gostau eithriadol fel y rhai sy'n gysylltiedig ag ailddylunio gwasanaethau.

53. Mae'r cronfeydd sydd gan yr ATA wrth gefn nawr yn nesáu at y lefel isaf y mae'r Trysorydd yn ei hystyried yn ddarbodus, sy'n cyfyngu ar y gallu i'w defnyddio fel rhan o strategaeth gosod y gyllideb.

54. Er bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn 4% ar hyn o bryd, bydd unrhyw fwriad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel rhan o strategaeth y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn effeithio'n fawr ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod ac ni fydd yn gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod.

55. Felly bydd yr angen i leihau costau neu gynyddu cyfraniadau'r awdurdodau lleol yn parhau, a bydd lleihad yn y capasiti sydd gan yr Awdurdod i ymateb i bwysau neu gostau gwaith na ragwelwyd.

56. Mae cynaliadwyedd ariannol yr ATA yn dibynnu bellach ar sicrhau cynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol a/neu gael gostyngiad parhaol yng nghostau rhedeg y gwasanaeth heb orfod dibynnu ar gronfeydd wrth gefn nad ydynt wedi'u dyrannu fel ateb tymor byr i sicrhau cyllideb fantoledig.

57. Yn yr wyth mlynedd rhwng 2011/12 a 2018/19, mae'r cyfraniadau gan bob awdurdod lleol wedi cynyddu rhwng £19,758 a £388,523 (sef £260,037 ar gyfartaledd).

58. O fynd i'r afael â'r diffyg cyfan yn 2019/20 drwy gyfraniadau ychwanegol, byddai hynny'n golygu cynnydd anarferol o llym mewn blwyddyn yn unig, sef rhwng £189,702 a £418,798 (£315,500 ar gyfartaledd) gan bob awdurdod lleol.

59. I'r gwrthwyneb, byddai mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r diffyg, neu'r diffyg y gyd, drwy arbedion effeithlonrwydd yn effeithio'n ddifrifol ar wasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru.


**Tair ffordd bosibl o fantoli cyllideb yr ATA yn 2019/20**

60. Mae'r mesurau canlynol yn cyflwyno tair ffordd arall o sicrhau cyllideb fantoledig. Argymhelliad y Panel Gweithredol i'r ATA llawn yw mai dim ond y ddwy ffordd gyntaf y dylid ymgynghori yn eu cylch dros yr haf ac na ddylid mynd ar ôl y drydedd ffordd.

| |
|---|
| **a) Un opsiwn yw cynyddu cyfanswm y cyfraniadau cyfunol gan yr awdurdodau lleol bron i £1.9 miliwn.** |

**Pa effaith fyddai hynny'n ei chael?**


- Byddai mymryn dan £1.9 miliwn yn cael ei ychwanegu at y cyfanswm cyfunol sy'n cael ei gyfrannu gan y chwe awdurdod lleol.
- Byddai hynny'n cyfateb i gyfraniad ychwanegol yr amcangyfrifir y bydd rhwng £189,702 a £418,798 i bob awdurdod lleol. Ni ellir rhoi ffigyrau union hyd nes y bydd yr amcangyfrifon poblogaeth wedi cael eu cyhoeddi, ond fe fydd, ar gyfartaledd, yn £315,500 X 6 awdurdod lleol = £1,893,000.
- Ar sail ar yr amcangyfrifon diweddar sy'n defnyddio data 2018/19, byddai hyn yn cynyddu'r cyfraniad cyfartalog a wnaed tuag at gost gwasanaethau tân ac achub, o ryw 2.55% o gyfanswm cyllidebau'r awdurdodau lleol i ryw 2.71% o gyfanswm cyllidebau'r awdurdodau lleol.
- Byddai holl gostau rhedeg yr ATA a amcangyfrifir yn cael eu talu, felly (a chymryd na fydd unrhyw bwysau ariannol na ellir eu rhagweld neu eu hosgoi ar yr ATA) ni fyddai ei allu i osod cyllideb fantoledig yn ddibynnol ar leihau ei gostau redeg na lefel y gwasanaethau tân ac achub y mae'n eu darparu.



**b) Opsiwn arall yw cynyddu cyfanswm y cyfraniad cyfunol gan yr awdurdodau lleol fymryn llai na'r £1.9 miliwn yr amcangyfrif y bydd ei angen.**

**Pa effaith fyddai hynny'n ei chael?**

- Byddai mymryn llai nag £1.9miliwn yn cael ei ychwanegu at y swm sy'n cael ei gyfrannu gan y chwe awdurdod lleol gyda'i gilydd.
- Mater i'r ATA fyddai penderfynu faint yn union yn llai na £1.9 miliwn, ond y rhagdybiaeth fyddai bod modd cael y gostyngiad yn y costau rhedeg angenrheidiol heb leihau gwasanaethau tân ac achub.




**Beth yw ystyr 'rhai arbedion' a 'mymryn llai nag £1.9 miliwn'?**


Dyma esbonio:

- Byddai arbedion o £90,000 gan yr ATA yn gostwng y cynnydd cyfartalog yn y cyfraniadau gan bob awdurdod lleol o £315,500 i <u>£300,500</u> (cyfanswm o £1,803,000).
- Byddai arbedion o £180,000 gan yr ATA yn gostwng y cynnydd cyfartalog yn y cyfraniadau gan bob awdurdod lleol o £315,500 i <u>£285,500</u> (cyfanswm o £1,713,000).
- Byddai arbedion o £270,000 gan yr ATA yn gostwng y cynnydd cyfartalog yn y cyfraniadau gan bob awdurdod lleol o £315,500 i <u>£270,500</u> (cyfanswm o £1,623,000).

| c) | **Trydydd opsiwn** (nad yw'r Panel Gweithredol yn ei argymell) **fyddai cynyddu cyfanswm y cyfraniad cyfunol gan yr awdurdodau lleol lawer llai na'r £1.9miliwn yr amcangyfrifir sydd ei angen.** |
|---|---|

**Pa effaith y byddai hynny'n ei chael?**

- Byddai llawer llai nag £1.9 miliwn yn cael ei ychwanegu at y swm y mae'r chwe awdurdod lleol yn ei gyfrannu gyda'i gilydd.
- Mater i'r ATA fyddai penderfynu faint yn union yn llai nag £1.9 miliwn, ond y disgwyl fyddai bod y swm yn ddigon prin o'r £1.9 miliwn fel mai'r unig ffordd o sicrhau cyllideb fantoledig fyddai drwy ostwng y lefelau cyfredol o wasanaethau tân ac achub (e.e. cau gorsafoedd tân a diswyddo diffoddwyr tân).




**Beth yw ystyr 'arbedion mawr' a 'llawer llai nag £1.9 miliwn'?**

Dyma esbonio:

- ➢ Byddai arbedion o £0.6 miliwn gan yr ATA yn gostwng y cynnydd cyfartalog yn y cyfraniadau gan bob awdurdod lleol, o £315,500 i £215,500 (cyfanswm o £1,293,000).
- ➢ Byddai arbedion o £1.2 miliwn gan yr ATA yn gostwng y cynnydd cyfartalog yn y cyfraniadau gan bob awdurdod lleol o £315,500 i £115,500 (cyfanswm o £693,000).
- ➢ Byddai arbedion o £1.8 miliwn gan yr ATA yn gostwng y cynnydd cyfartalog yn y cyfraniadau gan bob awdurdod lleol o £315,500 i £15,500 (cyfanswm o £93,000).

61. Dyma atgoffa'r Aelodau y gallai gymryd misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd i weithredu newidiadau, ac efallai na fyddai modd sicrhau gostyngiadau cost o ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae'r Trysorydd wedi dweud hefyd y gallai fod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn pontio'r ddiffyg yn y cyfamser.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol wrth gytuno ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas bendant rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2019/20 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Rhaid cytuno ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 ym mis Rhagfyr 2018 a'i chadarnhau erbyn canol Chwefror 2019.<br>Bydd cost yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei thalu o gyllideb cyfathrebu corfforaethol eleni. |
| Cyfreithiol | Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ym maes llesiant a chynllunio gwelliannau. |
| Staffio | Bydd yr effaith ar lefelau staffio yn dibynnu ar benderfyniad yr ATA yn y pen draw, ond ni ellir canfod unrhyw oblygiadau uniongyrchol o'r adroddiad hwn. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr effaith ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu'n llawn yn unol â phenderfyniad yr ATA yn y pen draw, ond ni ellir canfod unrhyw oblygiadau uniongyrchol o'r adroddiad hwn.<br>Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn ddwyieithog, a bydd yn ystyried anghenion pobl o ran eu nodweddion gwarchodedig.<br>Mae grwpiau sy'n cynrychioli'r holl nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn y rhestr o randdeiliaid yr ymgynghoriad. |
| Risgiau | Cafodd y risgiau posibl eu hystyried yng nghorff yr adroddiad, ond bydd angen asesiad pellach fel rhan o broses benderfynu derfynol yr ATA.<br>Byddai methu ag ymgynghori yn unol ag Egwyddorion Gunning yn gallu achosi i benderfyniadau'r ATA yn y pen draw fod yn destun her gyfreithiol. |

# Atodiadau

| | |
|---|---|
| 1 | Amserlen gryno ar gyfer creu Cynllun yr ATA ar gyfer 2019/20 |
| 2 | Cyfraniadau ariannol diweddar gan yr awdurdodau lleol |
| 3 | Darnau o Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 |
| 4 | Crynodeb o'r arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd a gafwyd eisoes |
| 5 | Egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd |
| 6 | Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| 7 | Crynodeb o gyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio yn 2018 |
| 8 | Adroddiad opsiynau'r Gweithgor Cynllunio |
| 9 | Map o Ogledd Cymru yn dangos lleoliadau'r gorsafoedd tân |

Atodiad 1

## Amserlen gryno ar gyfer creu Cynllun yr ATA ar gyfer 2019/20

| DYDDIAD | CYFARFODYDD | CAM GWEITHREDU |
|---|---|---|
| Ionawr – Mawrth 2018 | Gweithgor Cynllunio | Gwneud y gwaith manwl sy'n gysylltiedig â datblygu amcanion drafft ar gyfer 2019/20 ac ymlaen (ac ystyried y goblygiadau cyllidebol) i'w cymeradwyo gan yr ATA yn llawn. |
| 14/05/2018 | Panel Gweithredol | Cytuno ar argymhellion i'r ATA llawn ym mis Mehefin 2018 ar gyfer cynnig ymgynghorol drafft ar sail opsiynau i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb. |
| 18/06/2018 | ATA | Ystyried argymhellion gan y Panel Gweithredol a chytuno ar yr hyn fydd sail ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd dros yr haf. |
| Gorffennaf – Hydref 2018 | Ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. | |
| 22/10/2018 | Panel Gweithredol | Ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a chytuno ar argymhellion i'w cyflwyno i'r ATA llawn yn Rhagfyr 2018 |
| 17/12/2018 | ATA | Cytuno ar gyllideb ddrafft yr ATA ar gyfer 2019/20 ac ymgorffori'r amcanion yn ei Gynllun drafft ar gyfer 2019/20. |
| Chwefror 2019 | Panel Gweithredol | Yr ATA llawn yn ystyried Cynllun 2019/20 ar ffurf bron yn derfynol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. |
| 15/02/2019 | Y diwrnod olaf ar gyfer rhoi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol beth fydd eu cyfraniadau ariannol ar gyfer 2019/20. | |
| Mawrth 2019 | ATA | Cymeradwyo Cynllun 2019/20 drafft i'w gyhoeddi. |
| 31/03/2019 | Y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi Cynllun yr ATA ar gyfer 2019/20. | |

Atodiad 2

## Cyfraniadau diweddar gan yr awdurdodau cyfansoddol tuag at gyfanswm cost gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru

| £ | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 3,236,545 | 3,219,270 | 3,216,231 | 3,198,669 | 3,200,523 | 3,190,812 | 3,330,579 | 3,356,175 |
| Gwynedd | 5,588,685 | 5,525,827 | 5,507,985 | 5,588,255 | 5,602,787 | 5,598,221 | 5,851,817 | 5,914,137 |
| Conwy | 5,240,568 | 5,206,959 | 5,198,570 | 5,283,704 | 5,289,891 | 5,277,177 | 5,539,433 | 5,589,830 |
| Sir Ddinbych | 4,549,039 | 4,569,316 | 4,593,630 | 4,342,155 | 4,360,740 | 4,363,962 | 4,524,683 | 4,568,797 |
| Sir y Fflint | 7,051,716 | 6,981,590 | 6,955,089 | 7,018,721 | 7,033,548 | 7,022,578 | 7,339,795 | 7,409,315 |
| Wrecsam | 6,266,101 | 6,269,049 | 6,300,506 | 6,340,507 | 6,398,354 | 6,433,093 | 6,574,971 | 6,654,624 |
| **CYFANSWM** | **31,932,654** | **31,772,011** | **31,772,011** | **31,772,011** | **31,885,843** | **31,885,843** | **33,161,277** | **33,492,877** |
| Newid | | -160,643 | 0 | 0 | +113,832 | 0 | +1,275,434 | +331,600 |
| Amcangyfrif Poblogaeth | 688,417 | 690,434 | 691,986 | 694,038 | 695,549 | 697,122 | 698,715 | 700,310 |
| **£ y pen** | **£47** | **£46** | **£46** | **£46** | **£46** | **£46** | **£47** | **£48** |

Dyma 'awdurdodau cyfansoddol' Gogledd Cymru: Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995**

RHAN IV CRONFA GYFUNOL Y GWASANAETH TÂN

**21.**—(1) Rhaid i awdurdodau cyfansoddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, dalu i gronfa gyfunol y gwasanaeth tân, a hynny yn unol â darpariaethau'r paragraff hwn, gyfraniad sy'n cyfateb i gyfran briodol o dreuliau net yr Awdurdod mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r Awdurdod, cyn 31ain Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn, gyflwyno i bob awdurdod amcangyfrif o'i dreuliau net am y flwyddyn ariannol nesaf, ac yna rhaid iddo, cyn 15fed Chwefror, roi rhybudd o'r cyfraniad i'w dalu gan yr awdurdod hwnnw dan y paragraff hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Is-baragraffau (3) – (5) ymdrin â threfniadau ar gyfer talu.

(6) Caiff yr Awdurdod, ar ôl ymgynghori â phob awdurdod cyfansoddol, adolygu'r amcangyfrif y cyfeirir ato yn is-baragraff (2) unrhyw bryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r amcangyfrif hwnnw yn ymwneud â hi, a rhaid iddo, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, roi rhybudd yn ysgrifenedig i bob awdurdod cyfansoddol am swm diwygiedig y cyfraniad i'w dalu gan yr awdurdod hwnnw dan y paragraff hwn.

Is-baragraffau (7) – (8) ymdrin â'r trefniadau ar gyfer taliadau interim.

(9) Ar gyfer y paragraff hwn, rhaid i dreuliau net yr Awdurdod, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol, fod yn swm ei wariant ar gyfer y flwyddyn honno llai yr holl incwm sy'n cael ei gredydu i gronfa gyfunol y gwasanaeth tân ar gyfer y flwyddyn honno, heblaw cyfraniadau a dalwyd neu sy'n daladwy o dan is-baragraff (1), ond caiff, ar gyfer paratoi'r amcangyfrif y cyfeirir ato yn is-baragraff (2) ac os yw'r Awdurdod yn penderfynu hynny, gynnwys y cyfryw swm neu symiau sy'n briodol yn nhyb yr Awdurdod gyda'r bwriad o leihau unrhyw angen i ddiwygio'r amcangyfrif am i fyny o dan is-baragraff (6).

(10) Yn y paragraff hwn—

- ystyr "cyfran briodol" yw swm a bennir, yn absenoldeb cytundeb rhwng yr awdurdodau cyfansoddol, drwy edrych ar ba gyfran o holl boblogaeth yr ardal gyfunol yw poblogaeth ardal pob awdurdod cyfansoddol, a phoblogaeth unrhyw ardal yw nifer y bobl sydd fel arfer yn byw yn yr ardal honno, yn ôl amcangyfrif y Cofrestrydd Cyffredinol ac a nodir yn y data diweddaraf sydd ar gael ganddo ar 30ain Mehefin yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y cyfeirir ati yn is-baragraff (1);

## Crynodeb o'r arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd

## a gafwyd eisoes:

| 2011/12 | |
|---|---|
| **Cyfanswm y cyfraniadau yw £31,932,654.**<br><br>Blwyddyn 1 o gynllun ariannol 3 blynedd, sef 2011/12 - 2013/14.<br><br>**Lleihau'r costau £800,000.** | • Tynnu £460,000 o gyllideb rheolwyr gweithredol drwy ailstrwythuro'r trefniadau gofal swyddogion.<br>• Tynnu £200,000 o linellau penodol yn gyllideb drwy naill ai derfynu neu leihau gwariant arfaethedig.<br>• Tynnu £90,000 o gyllideb y Staff Cefnogol.<br>• Tynnu £50,000 o gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.<br>• Tynnu £30,000 o gyllideb yr Ystafell Reoli drwy ailstrwythuro'r adran.<br>• Lleihau costau darparu'r gwaith Diogelwch Tân i Fusnesau, gan gynnwys drwy drosglwyddo swyddi o delerau ac amodau'r llyfr llwyd (gweithredol) i rai'r llyfr gwyrdd (staff cefnogol).<br>• Tynnu un o'r pedwar ALP o fflyd y Gwasanaeth.<br>• <u>Arbedion eraill:</u><br>• Cadw lefel y presenoldeb mewn cynadleddau mor isel â phosibl.<br>• Newid y ffordd yr oedd dysgu ar yr ochr anweithredol yn cael ei ddarparu.<br>• Peidio ag ariannu digwyddiadau Cymdeithas y Diffoddwyr Ifanc.<br>• Cyfuno gwahanol seremonïau gwobrwyo. |
| **2012/13** | |
| **Cyfanswm y cyfraniadau yw £31,772,011** (£160,643 yn llai na'r flwyddyn flaenorol).<br><br>Blwyddyn 2 o gynllun ariannol 3 blynedd, sef 2011/12 - 2013/14.<br><br>**Arbed £815,000.** | • Tynnu £500,000 o gyllideb gyflogau diffoddwyr tân gweithredol (22 o swyddi amser cyflawn) drwy newid y ffordd roedd shifftiau gwaith yn cael eu cylchrestru ond heb effeithio ar nifer y diffoddwyr tân mewn criw.<br>• Tynnu £150,000 o linellau penodol ar y gyllideb naill ai drwy derfynu neu leihau gwariant arfaethedig.<br>• Tynnu £50,000 o gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.<br>• Tynnu £90,000 pellach o gyllideb Staff Cefnogol. |

| | |
|---|---|
| **2013/14** | |
| **Cyfanswm y cyfraniadau yw 31,772,011** (yr un fath â'r flwyddyn flaenorol).<br><br>Blwyddyn 3 o gynllun ariannol 3 blynedd, sef 2011/12 - 2013/14.<br><br>**Arbed £800,000.** | • Tynnu £500,000 o gyllideb gyflogau diffoddwyr tân gweithredol (fel yn y flwyddyn flaenorol).<br>• Dyrannu diffoddwyr tân amser cyflawn drwy Gronfa Adnoddau Gweithredol i gefnogi argaeledd gorsafoedd tân RDS o ddydd i ddydd.<br>• Tynnu £70,000 o linellau penodol ar y gyllideb naill drwy derfynu neu leihau gwariant arfaethedig am y trydydd tro.<br>• Tynnu £50,000 o gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.<br>• Tynnu £180,000 o gyllideb Staff Cefnogol. |
| **2014/15** | |
| **Cyfanswm y cyfraniadau yw 31,772,011** (rhewi'r gyllideb am flwyddyn arall)**.** | • Penderfynwyd defnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn i ymorol am unrhyw ddiffyg ac felly osgoi cyflwyno'r toriadau mawr a fyddai eu hangen fel arfer. Ond deallwyd na fyddai'r opsiwn hwn yn gynaliadwy am fwy na blwyddyn. |
| **2015/16** | |
| **Cyfanswm y cyfraniadau yw £31,885,843** (£113,000 o gynnydd),<br><br>£223,000 o gronfeydd wrth gefn ar gael i ymorol am y diffyg. | • Rhagweld £16,000 o arbedion drwy derfynu gwasanaethau anstatudol, e.e. achub anifeiliaid mawr ac achub â rhaffau.<br>• Arbed £35,000 drwy derfynu gwasanaethau anstatudol (Atal Tân).<br>• Rhagweld £25,000 o arbedion drwy newid y polisi ar ymateb i alwadau'n dod gan Larymau Tân Awtomatig. Roedd yr arbedion gwirioneddol yn uwch – arbedion arian parod yn £67,889.50 ac arbedion nad ydynt yn rhai arian parod drwy defnyddio amser yn fwy effeithiol ar gyfer gweithgareddau megis diogelwch cymunedol.<br>• Arbed £250,000 o bosibl drwy ddileu pedair swydd rheolwyr canol (swyddogion dyletswydd hyblyg), gan ostwng nifer y swyddi o'r fath o 32 i 28, sef y lefel isaf absoliwt sydd ei hangen i weithredu systemau gweithio diogel dan y System Rheoli Digwyddiadau.<br>• Strwythur Rheolwyr Gweithredol newydd (Medi 2015).<br>• Cyflwyno contractau "Amser Cyflawn gwledig" i ddarparu 21 o oriau yr wythnos. |

| 2016/17 | |
|---|---|
| Cyfanswm y cyfraniadau yw **£31,885,843** (yr un fath â'r flwyddyn flaenorol).<br><br>£454,000 o gronfeydd wrth gefn ar gael i ymorol am y diffyg. | • Ym mis Mai 2016 roedd yr Awdurdod yn amcangyfrif y byddai £1.7miliwn o fwlch cyllido erbyn 2018/19 ynghyd â chronfeydd ariannol yn lleihau. Er eu bod yn cydymdeimlo â'r pwysau ariannol ar y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, roeddent hefyd yn cydnabod y pwysau costau anochel oherwydd chwyddiant cyflogau a phrisiau a newid ym mholisi'r llywodraeth mewn perthynas â phensiynau.<br>• Ym mis Mehefin 2016, roedd yr Awdurdod yn amcangyfrif y byddai £2.26 miliwn o fwlch cyllido erbyn 2019/20 ynghyd â chronfeydd ariannol yn lleihau. Nid oedd yn ystyried bod ei strategaeth i barhau i rewi'r gyllideb yn un gynaliadwy.<br>• Cynigiodd y Panel Gweithredol y dylai'r Awdurdod fabwysiadu strategaeth newydd o 2017/18 o gyfuno cyfraniadau uwch, lleihau gwasanaethau a defnyddio cronfeydd wrth gefn i ymorol am unrhyw ddiffyg. Byddai hyn yn golygu cynnydd yn y cyfraniadau yn 2017/18 ond i ddilyn byddai dwy flynedd (2018/19 a 2019/20) heb gynnydd pellach yn y cyfraniadau.<br>• Edrychodd y gweithgor cynllunio sut i wneud arbedion i helpu i gadw cyfraniadau'r cynghorau sir yn isel a chanfod £1,000,000 o arbediad posibl drwy dynnu peiriant tân amser cyflawn o Wrecsam (gan adael un peiriant tân amser cyflawn ac un peiriant tân RDS yno).<br>• Ym mis Hydref 2016 bu'r Awdurdod yn meddwl am y ffaith fod y Gwasanaeth wedi sicrhau £3 miliwn o arbedion ac roedd ei weithlu wedi gostwng 9%, ond i dalu 1% o godiad cyflog, cost yr ardoll prentisiaeth, cost refeniw'r gyllideb gyfalaf a chwyddiant prisiau annewisol, byddai'n rhaid i gyfraniadau'r cynghorau sir gynyddu £1.7miliwn yn 2017/18.<br>• Ym mis Rhagfyr 2016 bu'r Awdurdod yn meddwl eto am yr arbedion a gafwyd eisoes ond gwrthodwyd y cynnig o gael £1.7 miliwn o gynnydd yn y cyfraniadau yn 2017/18 (a oedd yn cynnwys diffyg o £740,000 yn y gyllideb yn 2016/17 a oedd wedi cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn). Fel dewis arall, |

| | |
|---|---|
| | penderfynodd yr Awdurdod gael £1.28 miliwn o gynnydd yn y cyfraniadau yn 2017/18 ac yna i'w cynyddu eto 1.3% yn 2018/19 os bydd angen. Gellid ymorol am unrhyw ddiffyg yn 2017/18 o'r cronfeydd wrth gefn.<br>• Bwriad yr Awdurdod oedd y byddai unrhyw baratoadau yn dechrau yn 2017 i leihau'r costau rhedeg £1,000,000 o 2019/20 ymlaen. Ond ym mis Mawrth 2017, rhoddwyd gorau i'r posibilrwydd o gael £1,000,000 o arbedion yn 2019/20 drwy dynnu peiriant tân o Wrecsam pan benderfynodd yr Awdurdod dynnu'r opsiwn a chaniatáu i'r Awdurdod newydd wneud ei benderfyniadau ei hun am ei strategaeth ariannol. |
| **2017/18** | |
| **Cyfanswm y cyfraniadau yw £33,161,277** (£1,275,434 o gynnydd).<br><br>£414,000 ar gael o gronfeydd wrth gefn i ymorol am y diffyg. | |
| **2018/19** | |
| **Cyfanswm y cyfraniadau yw £33,492,877** (£331,600 o gynnydd).<br><br>£646,000 ar gael o gronfeydd wrth gefn i ymorol am y diffyg. | • Arbed £366,000 bob blwyddyn drwy adolygu'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw.<br>• Ym mis Rhagfyr 2017, penderfynodd yr Awdurdod ar 1% yn ychwanegol (£331,600) yn y cyfraniadau ar gyfer 2018/19 – llai na'r 1.3% y soniwyd amdano yn Rhagfyr 2016 a llai na'r 4.05% a fyddai wedi ymorol am gyfanswm y costau a amcangyfrifwyd yn 2018/19 (fel y cyfrifwyd cyn y penderfyniad am y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw). |

Atodiad 5

# Ymgynghori: Egwyddorion Gunning

Boed yna ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori ai peidio, pan gynhelir ymgynghoriad rhaid gwneud hynny'n deg. Bydd yr hyn sy'n deg yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a natur y cynigion dan ystyriaeth.

Yn amodol ar ofynion cyffredinol tegwch, bydd gan y penderfynwr ddisgresiwn eang ynghylch sut y dylid cynnal yr ymgynghoriad a beth y dylid ymgynghori yn ei gylch.

Rhaid i'r ymgynghoriad gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol hefyd (fe'u gwelwir yn egwyddorion Gunning ar ôl yr achos lle cawsant eu nodi, neu ofynion Sedley ar ôl y bargyfreithiwr wnaeth eu hawgrymu yn yr achos hwnnw):

- Rhaid cynnal yr ymgynghoriad pan mae'r cynnig yn cael ei ffurfio. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gadw meddwl agored yn ystod yr ymgynghoriad a rhaid iddynt beidio â bod wedi gwneud y penderfyniad yn barod, ond hwyrach fod ganddynt rai syniadau am y cynnig.
- Rhaid cyflwyno rhesymau digonol dros y cynnig er mwyn galluogi ystyriaeth ac ymateb deallus. Rhaid i'r ymgynghoreion gael digon o wybodaeth er mwyn gallu gwneud cyfraniad gwybodus at y broses.
- Rhaid caniatáu digon o amser i ystyried ac ymateb. Rhaid i amseriad ac amgylchedd yr ymgynghoriad fod yn briodol, rhaid rhoi digon o amser i bobl ddatblygu barn ar sail gwybodaeth ac yna roi adborth, a rhaid rhoi digon o amser i ddadansoddi'r canlyniadau.
- Rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol.

Mae'n ddoeth i benderfynwr ddangos yn ei benderfyniad ei fod wedi cynnal ymgynghoriad a'i fod wedi rhoi pwys priodol i'r sylwadau a ddaeth i law. Gallai hyn olygu bod rhaid i'r penderfynwr ddangos ei fod wedi deall y pwyntiau sy'n cael eu gwneud gan yr ymatebion a'i fod wedi'u hystyried.

Cydnabyddiaeth :http://law.gov.wales/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/has-any-consultation-been-carried-out-fairly-and-properly/what-are-the-requirements-for-any-consultation-that-is-carried-out/?lang=en#/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/has-any-consultation-been-carried-out-fairly-and-properly/what-are-the-requirements-for-any-consultationthat-is-carried-out/?tab=overview&lang=cy

Atodiad 6

## Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

| Aelodau sydd hefyd yn aelodau o'r Panel Gweithredol (a'r Gweithgor Cynllunio) | | Aelodau sydd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| ○ Eric Wyn Jones, ericjones@anglesey.gov.uk<br>○ Richard Griffiths, richardgriffiths@anglesey.gov.uk | 3 | ○ Dylan Rees, DylanRees@ynysmon.gov.uk |
| ○ Gethin Glyn Williams, cynghorydd.gethinglynwilliams@gwynedd.gov.uk<br>○ John Brynmor Hughes, Cynghorydd.JohnBrynmorHughes@gwynedd.llyw.cymru | 5 | ○ Annwen Daniels, cynghorydd.annwendaniels@gwynedd.llyw.cymru<br>○ Simon Glyn, cynghorydd.simonglyn@gwynedd.llyw.cymru<br>○ Dilwyn Lloyd, cynghorydd.i.dilwynlloyd@gwynedd.llyw.cymru |
| ○ Peter Lewis, cllr.Peter.Lewis@conwy.gov.uk<br>○ Roger Parry, cllr.roger.parry@conwy.gov.uk<br>○ Adrian Tansley, cllr.adrian.tansley@conwy.gov.uk | 5 | ○ Sue Lloyd-Williams, cllr.sue.lloyd-williams@conwy.gov.uk<br>○ Nigel Smith, cllr.nigel.smith@conwy.gov.uk |
| ○ Meirick Ll Davies, Meirick.davies@sirddinbych.gov.uk<br>○ Ann Davies, janetann.davies@denbighshire.gov.uk<br>○ Brian Blakeley, brian.blakeley@denbighshire.gov.uk | 4 | ○ Peter Evans, peter.evans@denbighshire.gov.uk |
| ○ Veronica Gay, veronica.gay@flintshire.gov.uk<br>○ Marion Bateman, marion.bateman@flintshire.gov.uk | 6 | ○ Paul Shotton, paul.shotton@flintshire.gov.uk<br>○ Ian Dunbar, ian.dunbar@flintshire.gov.uk<br>○ Owen Thomas, owen.thomas@flintshire.gov.uk<br>○ David Wisinger, david.wisinger@flintshire.gov.uk |
| ○ Rondo Roberts, Rondo.Roberts@wrexham.gov.uk<br>○ Michael Dixon, michael.dixon@wrexham.gov.uk | 5 | ○ J Rodney Skelland, rodney.skelland@wrexham.gov.uk<br>○ Geoff Lowe, geoff.lowe@wrexham.gov.uk<br>○ Bryan Apsley, bryan.Apsley@wrexham.gov.uk |

## **Crynodeb o gyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio yn 2018.**

Cyfarfu'r Gweithgor Cynllun bum gwaith – Ionawr 15fed, Chwefror 5ed a 26ain, Mawrth 5ed a 19eg.

Bu'r aelodau'n ystyried yr heriau tebygol sy'n digwydd o ganlyniad i ddiffyg a ragwelir yng nghyllideb yr Awdurdod yn 2019/20 ac amrywiaeth o ffyrdd posibl o sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub yn gynaliadwy yng Ngogledd Cymru.

Cafodd yr aelodau wybodaeth gan y swyddogion a buont yn meddwl am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

- cyfrifoldebau'r Awdurdod tuag at gynllunio, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- pwysigrwydd ymgynghori'n ystyrlon â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, cyn cwblhau'r cynlluniau strategol yn derfynol;
- dyletswyddau statudol awdurdodau tân ac achub yng Nghymru:
    - hybu diogelwch tân; diffodd tanau; ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd; a delio ag unrhyw argyfyngau rhagnodedig eraill;
    - cael gwared ar halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol mewn argyfwng; achub pobl sy'n gaeth ar ôl i adeiladau neu strwythurau eraill ddymchwel; rhai argyfyngau'n ymwneud â threnau, tramiau neu awyrennau;
    - ymateb i lifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol sy'n golygu perygl marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol i bobl;
    - bod yn awdurdod gorfodi ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd annomestig; a
    - bod yn 'ymatebydd categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, gyda dyletswyddau i asesu'r risg y gallai argyfyngau ddigwydd ac i greu a chynnal cynlluniau priodol;
- y gwaith helaeth sy'n digwydd mewn partneriaeth â gwasanaethau brys eraill, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill gan gynnwys y trydydd sector;
- *cyllidebau blynyddol yr ATA ers 2011/12;*
- hanes blaenorol yr ATA o ymdrin â chynnydd anochel yn y costau drwy leihau gwasanaethau a gwneud arbedion*;*
- beth fyddai ystyr cyllideb fantoledig yn y dyfodol, o ystyried y diffyg mawr posibl yn y gyllideb sy'n wynebu'r ATA yn *2019/20 a'r tu hwnt;*
- yr ansicrwydd o ran newidiadau nad ydynt wedi'u pennu yr hoffai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i drefniadau llywodraethu a chyllid yr ATAau yng Nghymru*;*
- *gorsafoedd tân a pheiriannau tân ac achub yng Ngogledd  Cymru;*
- *lefelau gweithgareddau gweithredol,*
- *argaeledd gorsafoedd tân,*
- *sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn ag anfon allan – egwyddorion presenoldeb rhagnodedig mewn gwahanol fathau o ddigwyddiadau;*

- *rôl diffoddwyr tân gweithredol a thrafodaethau cenedlaethol am eu rôl yn y dyfodol;*
- *y pwysau uniongyrchol i fantoli'r gyllideb ond yr amserlen hirach ar gyfer cael gostyngiadau mawr yn y costau rhedeg;*
- *diswyddo staff;*
- *sut byddai newidiadau i wasanaethau'n annhebygol o gael croeso gan y cyhoedd ond y byddai disgwyl gan y cynghorau sir fod modd cadw'r cyfraniadau'n isel;*
- *y posibilrwydd o weithredu diwydiannol i ymateb i ddiswyddo diffoddwyr tân;*
- *effaith bosibl lleihau costau rhedeg drwy gau gorsafoedd tân, tynnu peiriannau tân a newid trefniadau staffio ar wahanol fathau o orsafoedd tân;*
- *yr opsiynau posibl ar gyfer gostwng costau rhedeg y gwasanaeth tân ac achub;*
- *y buddsoddiad diweddar mewn prentisiaid diffoddwyr tân a thrafferth mantoli'r diswyddiadau gyda'r buddsoddiad hwnnw;*
- *goblygiadau cyflwyno gorsafoedd tân newydd a fyddai'n sicr o olygu llawer o waith ac o gynllunio, a byddai angen ystyried hynny mewn perthynas â chriwiau'r system RDS sydd angen byw neu weithio'n agos at yr orsaf dân;*
- *sut mai'r gorsafoedd tân RDS sydd â lefelau argaeledd isel ac sy'n mynd at y nifer leiaf o ddigwyddiadau fyddai'r rhai a fyddai'n rhoi'r lefel isaf o arbedion;*
- *pwysigrwydd gweithredu'n bendant a pheidio â chreu ansicrwydd drwy ddechrau ar un llwybr heb fod yn gwbl ymrwymedig iddo;*
- *pwysigrwydd cynnwys y staff a'r cyrff cynrychioliadol yn y trafodaethau am ddiswyddiadau neu os cynigir unrhyw newidiadau i delerau cyflogaeth cytundebol;;*
- *newidiadau a wnaed i'r Gwasanaeth ers 2011/12 er mwyn arbed arian*
- *anhawster gweithredu arbedion mawr (dros £250k) mor gynnar â dechrau blwyddyn 2019/20.*

Bu'r Gweithgor Cynllunio yn ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir. Penderfynodd y Gweithgor ei fod eisiau i'r Panel Gweithredol ystyried pob opsiwn yn ei gyfarfod ym mis Mai, yn ogystal â'r opsiwn o ariannu'r diffyg drwy gyfraniadau uwch gan yr awdurdodau lleol.

## Y GWEITHGOR CYNLLUNIO

## PAPUR TRAFOD 19/03/2018

**Costau cyflog nodweddiadol (a ddefnyddir i'r amcangyfrifon cyfrifo):**

| | System Dyletswydd Amser Cyflawn (WDS)* | | | System ar gael yn ôl y Galw (RDS)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Shifftiau 24 awr** | **Criw dydd** | | **Contract 100%** | **Contract 75%** |
| Rheolwr Gwylfa B | £48,082 | | | | |
| Rheolwr Gwylfa A | £45,148 | £50,717 | | £6,959 | £5,580 |
| Rheolwr Criw | £42,997 | £48,459 | | £6,222 | £5,314 |
| Diffoddwr Tân | £38,782 | £44,034 | | £5,612 | £4,793 |

*Yn cynnwys argostau (e.e. yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn).

** Yn cynnwys ffioedd cadw ac ymarfer, ond nid ffioedd digwyddiadau.

| **Tynnu'r 2il beiriant tân amser cyflawn (WDS) o Wrecsam**: | | |
|---|---|---|
| O: | 4 X 1 = 4 Rheolwr Gwylfa B | £192,329 |
| Ddau beiriant | 4 X 3= 12 Rheolwr Criw | £515,965 |
| | 4 X 9 = 36 Diffoddwr Tân | £1,396,170 |
| | | **£2,104,464** |
| I: | 4 X 1 = 4 Rheolwr Gwylfa A | £180,591 |
| Un peiriant | 4 X 2 = 8 Rheolwr Criw | £343,977 |
| | 4 X 4= 16 Diffoddwr Tân | £620,520 |
| | | **£1,145,088** |

| **Arbedion:** | | |
|---|---|---|
| | Rheolwr Gwylfa (cyflog is) | -£11,738 |
| | Rheolwr Criw (cyflogi 4 yn llai) | -£171,988 |
| | Diffoddwr Tân (cyflogi 20 yn llai) | -£775,650 |
| | | **-£959,376** |

| **Amcangyfrif o gost unigol y taliadau diswyddo statudol (cyfanswm):** |
|---|
| **£127,140 (ac eithrio cyfnod rhybudd)** |

**PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED (ENGHREIFFTIAU YN UNIG)**

**Arbedion cysylltiedig:**
Fflyd (e.e. cost cynnal a chadw ac adnewyddu 1 peiriant tân a'r cyfarpar arno).
Staff (e.e. cyfarpar personol, hyfforddiant, TGCh a gweinyddu cyflogaeth 24 o weithwyr).

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Angen sicrhau prosesau teg ar gyfer diswyddo hyd at 24 o ddiffoddwyr tân (ymgynghori, meini prawf dethol, sail busnes ar gyfer diswyddo, dewisiadau eraill ac ati) ac ar gyfer gostwng cyflog 4 o Reolwyr Gwylfa o B (cyflog uwch) i A (cyflog is).
Angen sicrhau bod digon o ymgynghori'n digwydd â'r rhanddeiliaid ("egwyddorion Gunning").

**Yn bosibl**

- Gweithredu diwydiannol yn yr holl ardal (nid dim ond yn yr orsaf dan sylw);
- Ymgyrchoedd lleol, diddordeb yn y mater gan y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Peidio â chael yr arbedion a ragwelir – e.e. arbedion yn rhan o'r flwyddyn yn unig wrth i'r trafodaethau/heriau barhau; negodir codiadau cyflog yn genedlaethol;
- Costau cyfreithiol yn gysylltiedig ag amddiffyn/gweithredu'r newidiadau arfaethedig (e.e. yn gysylltiedig ag ymgynghori a chyflogau/cyflogaeth);
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â phrosesau diswyddo a gostwng cyflogau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â rheoli diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig ag addasu protocolau anfon allan a/neu brotocolau eraill yn dilyn tynnu'r peiriant yn barhaol;
- Defnyddio/dibynnu mwy ar y peiriannau/cyfarpar gweithredol sydd ar ôl;
- Defnyddio/dibynnu mwy ar y criwiau sydd ar ôl Wrecsam a/neu orsafoedd tân cyfagos (y rhai agosaf yw'r gorsafoedd RDS yn Johnstown, Llangollen, y Waun a Bwcle);
- Amseroedd cyrraedd hirach (amser ychwanegol i'r criw RDS gyrraedd yr orsaf);
- Dibynnu mwy ar gynnal gofal RDS llawn yn yr ardal (her o ran recriwtio a chadw);
- Llai o gapasiti gan y Gwasanaeth i gael dyletswyddau/cydweithio (newydd o bosibl) yn y dyfodol;
- (Beirniadaeth ar) dan-ddefnyddio cyfleuster yr orsaf dân yn Wrecsam;
- Cronfa lai o ddiffoddwyr tân amser cyflawn i fynd yn eu blaenau i swyddi arbenigol/rheoli.

| **Newid oriau'r 2il beiriant tân yn Wrecsam (i'r dydd yn unig, nid dros nos)**: | | |
|---|---|---|
| O:<br>Ddau beiriant ar 2:2:4 | 4 X 1 = 4 Rheolwr Gwylfa B<br>4 X 3= 12 Rheolwr Criw<br>4 X 9 = 36 Diffoddwr Tân | £192,329<br>£515,965<br>£1,396,170<br>**£2,104,464** |
| I:<br>Un peiriant ar 2:2:4 (pedair shifft) | 4 X 1 = 4 Rheolwr Gwylfa A<br>4 X 2 = 8 Rheolwr Criw<br>4 X 4= 16 Diffoddwr Tân | £180,591<br>£343,977<br>£620,520<br>**£1,145,088** |
| Ac<br>Un peiriant ar 4 ymlaen 4 i ffwrdd (dwy shifft) wedi'i gyfrifo ar gyfraddau cyflogau shifft 24 awr | 2 X 1 = 2 Rheolwr Gwylfa A<br>2 X 2 = 4 Rheolwr Criw<br>2 X 4 = 8 Diffoddwr Tân | £90,296<br>£171,988<br>£310,260<br>**£572,544** |
| | | **£1,717,632** |
| **Arbedion:** | | |
| | Rheolwr Gwylfa (ar sail 2 yn ychwanegol) | +£78,557 |
| | Rheolwr Criw (angen yr un nifer) | £0 |
| | Diffoddwr Tân (cyflogi 12 yn llai) | -£465,390 |
| | | **-£386,833** |

| **Amcangyfrif o gost unigol y taliadau diswyddo statudol (cyfanswm):** |
|---|
| **£48,900 (ac eithrio cyfnod rhybudd)** |

**PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED (ENGHREIFFTIAU YN UNIG)**

**Arbedion cysylltiedig:**
Staff (e.e. cyfarpar personol, hyfforddiant, TGCh a gweinyddu cyflogaeth 10 o weithwyr).

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Angen sicrhau prosesau teg ar gyfer diswyddo staff (ymgynghori, meini prawf dethol, sail busnes ar gyfer diswyddo, dewisiadau eraill ac ati) ac ar gyfer gostwng swyddi Rheolwyr Gwylfa o B (cyflog uwch) i A. Byddai angen negodi'r contract "staff dydd" newydd gan nad yw wedi'i brofi. (Byddai talu cyfraddau criwiau dydd yn hytrach na'r cyfraddau 24 awr i'r pwmp staff dydd yn lleihau'r arbedion o £386,833 i £311,830).

**Yn bosibl:**
- Gweithredu diwydiannol ledled yr holl ardal (nid dim ond yn yr orsaf dan sylw);
- Ymgyrchoedd lleol, diddordeb yn y newid gan y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Peidio â chael yr arbedion a ragwelir – e.e. arbedion yn rhan o'r flwyddyn yn unig wrth i'r trafodaethau/heriau barhau; cyfraddau cyflog a lwfansau "staff dydd" yn uwch nag a ragwelir; negodiadau cyflogau cenedlaethol;
- Costau cyfreithiol yn gysylltiedig ag amddiffyn/gweithredu'r newidiadau arfaethedig (e.e. yn gysylltiedig ag ymgynghori a chyflogau/cyflogaeth);
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â phrosesau diswyddo a negodi cyflogau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â rheoli diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig ag addasu protocolau anfon allan a/neu brotocolau eraill ar gyfer y nos;
- Defnyddio/dibynnu mwy ar y criw sydd ar ôl yn Wrecsam a/neu orsafoedd tân cyfagos (y rhai agosaf yw'r gorsafoedd RDS yn Johnstown, Llangollen, y Waun a Bwcle);
- Amseroedd cyrraedd hirach yn y nos (amser ychwanegol i'r criw RDS gyrraedd yr orsaf);
- Dibynnu mwy ar gynnal gofal RDS llawn yn yr ardal (her o ran recriwtio a chadw)
- Mymryn yn llai o gapasiti gan y Gwasanaeth i gael dyletswyddau/cydweithio (newydd o bosibl) yn y dyfodol;
- Cronfa lai o ddiffoddwyr tân amser cyflawn i fynd yn eu blaenau i swyddi arbenigol/rheoli.

| Troi shifft 24 awr Glannau Dyfrdwy a/neu'r Rhyl yn staff dydd yn unig (a gofal RDS yn unig yn y nos) | | |
|---|---|---|
| O: | | |
| | 4 X 1 = 4 Rheolwr Gwylfa A | £180,591 |
| Un peiriant, 4 shifft | 4 X 2 = 8 Rheolwr Criw | £343,977 |
| | 4 X 4 = 16 Diffoddwr Tân | £620,520 |
| | | £1,145,088 |
| I: | | |
| | 2 X 1 = 2 Rheolwr Gwylfa A | £90,296 |
| Un peiriant, 2 shifft | 2 X 2 = 4 Rheolwr Criw | £171,988 |
| Wedi'i gyfrifo ar gyfraddau cyflog shifftiau 24 awr | 2 X 4 = 8 Diffoddwr Tân | £310,260 |
| | | **£572,544** |

| **Arbedion:** | | |
|---|---|---|
| | Rheolwr Gwylfa (cyflogi 2 yn llai) | -£90,296 |
| | Rheolwr Criw (cyflogi 4 yn llai) | -£171,988 |
| | Diffoddwr Tân (cyflogi 8 yn llai) | -£310,260 |
| | | **-£572,544** |

| **Amcangyfrif o gost unigol y taliadau diswyddo statudol (cyfanswm) ar gyfer pob gorsaf:** |
|---|
| **£88,509 (ac eithrio cyfnod rhybudd)** |
| **PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED (ENGHREIFFTIAU YN UNIG)** |

**Arbedion cysylltiedig:**

Staff (e.e. cyfarpar personol cyfarpar personol, hyfforddiant, TGCh a gweinyddu cyflogaeth 10 o weithwyr).

**Goblygiadau cyfreithiol:**

Angen sicrhau prosesau teg ar gyfer diswyddo staff (ymgynghori, meini prawf dethol, sail busnes ar gyfer diswyddo, dewisiadau eraill ac ati).

Byddai angen negodi contract "staff dydd" gan nad yw wedi'i brofi eto. (Byddai talu cyfraddau criw dydd yn hytrach na chyfraddau shifftiau 24 awr yn gostwng yr arbedion o £572,544 i £497,542).

**Yn bosibl:**

- Gweithredu diwydiannol ledled yr holl ardal (nid yn unig yn yr orsaf dan sylw);
- Ymgyrchoedd lleol, diddordeb yn y newid gan y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Cwynion gan ddiffoddwyr tân sy'n byw ymhell oddi wrth yr orsaf dân (costau adleoli);
- Peidio â chael yr arbedion a ragwelir – e.e. arbedion yn rhan o'r flwyddyn yn unig wrth i'r trafodaethau/heriau barhau, cyfraddau cyflog a lwfansau "staff dydd" yn uwch na'r disgwyl, negodiadau cyflogau cenedlaethol;
- Costau cyfreithiol yn gysylltiedig ag amddiffyn/gweithredu'r newidiadau arfaethedig (e.e. yn ymwneud ag ymgynghori ac yn ymwneud â chyflogau/cyflogaeth);
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â phrosesau diswyddo a negodi cyflogau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â rheoli diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig ag addasu protocolau anfon allan a/neu brotocolau eraill yn dilyn tynnu'r peiriant yn barhaol;
- Defnyddio/dibynnu mwy ar y criwiau RDS yng Nglannau Dyfrdwy a/neu orsafoedd tân cyfagos yn y nos (y rhai agosaf yw'r gorsafoedd RDS yn y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug a Bwcle);
- Defnyddio/dibynnu mwy ar y criwiau RDS yn y Rhyl a/neu orsafoedd tân cyfagos yn y nos (y rhai agosaf yw'r gorsafoedd RDS ym Mhrestatyn, Llanelwy ac Abergele);
- Amseroedd cyrraedd hirach (amser ychwanegol i'r criw RDS gyrraedd yr orsaf);
- Dibynnu mwy ar gynnal gofal RDS llawn yn yr ardal (her o ran recriwtio a chadw);
- Mymryn llai o gapasiti gan y Gwasanaeth i gael dyletswyddau/cydweithio (newydd o bosibl) yn y dyfodol;
- Cronfa lai o ddiffoddwyr tân amser cyflawn i fynd yn eu blaenau i swyddi arbenigol/rheoli.

| **Troi un neu ragor o'r gorsafoedd criw dydd yn orsafoedd RDS (ar gael yn ôl y galw)** | | |
|---|---|---|
| Mae'r gorsafoedd criw dydd yng Nghaergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno a Bae Colwyn. Mae gan bob un beiriant criw dydd yn ogystal â pheiriant RDS. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar dynnu'r peiriant criw dydd a chadw'r peiriant RDS fel y mae. | | |
| O: | | |
| | 2 X 1 = 2 Rheolwr Gwylfa A | £101,435 |
| Un peiriant criw dydd, 2 shifft | 2 X 2 = 4 Rheolwr Criw | £193,838 |
| Yn ogystal â pheiriant RDS (heb ei gostio yn y fan yma) | 2 X 4 = 8 Diffoddwr Tân | £352,273 |
| | | **£647,546** |
| I:<br>(criw RDS yn unig, costau cyflogaeth heb newid) | | |

| **Arbedion am bob gorsaf criw dydd:** | | |
|---|---|---|
| *Nid yw'r cyfrifiad yn ystyried ffioedd RDS uwch (sy'n cael eu talu am bob digwyddiad* | Rheolwr Gwylfa (cyflogi 2 yn llai) | -£101,435 |
| | Rheolwr Gwylfa (cyflogi 4 yn llai) | -£193,838 |
| | Diffoddwr Tân (cyflogi 8 yn llai) | -£352,273 |
| | | **-£647,546** |

| **Amcangyfrif o gost unigol y taliadau diswyddo statudol (cyfanswm) am bob gorsaf:** |
|---|
| **£88,509 (ac eithrio cyfnod rhybudd)** |

**PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED (ENGHREIFFTIAU YN UNIG)**

**Arbedion cysylltiedig:**
Staff (e.e. cyfarpar personol, hyfforddiant, TGCh a gweinyddu cyflogaeth 14 o weithwyr ar bob gorsaf).

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Angen sicrhau prosesau teg ar gyfer diswyddo staff (ymgynghori, meini prawf dethol, sail busnes ar gyfer diswyddo, dewisiadau eraill ac ati).

**Yn bosibl:**

- Gweithredu diwydiannol ledled yr holl ardal (nid yn unig yn yr orsaf dan sylw);
- Ymgyrchoedd lleol, diddordeb yn y newid gan y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Peidio â chael yr arbedion a ragwelir – e.e. arbedion yn rhan o'r flwyddyn yn unig wrth i'r trafodaethau/heriau barhau, hefyd byddai cynnydd yn y ffioedd digwyddiadau RDS (sy'n cael eu talu am bob digwyddiad y maent yn mynd atynt;
- Costau cyfreithiol yn gysylltiedig ag amddiffyn/gweithredu'r newidiadau arfaethedig (e.e. yn gysylltiedig ag ymgynghori a chyflogau/cyflogaeth);
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â phrosesau diswyddo a negodi cyflogau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â rheoli diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau;
- Defnyddio/dibynnu mwy ar griwiau RDS yn yr orsaf a/neu orsafoedd tân cyfagos;
- Amseroedd cyrraedd hirach nag o'r blaen yn ystod y dydd (amser ychwanegol i griw RDS gyrraedd yr orsaf);
- Dibynnu mwy ar gynnal gofal RDS llawn yn yr ardal yn ystod y dydd (heriau o ran recriwtio a chadw, yn anos o bosibl yn ystod y dydd pan mae pobl yn eu prif gyflogaeth);
- Llai o gapasiti gan y Gwasanaeth i gael dyletswyddau/cydweithio (newydd o bosibl) yn y dyfodol;
- Cronfa lai o ddiffoddwyr tân amser cyflawn i fynd yn eu blaenau i swyddi arbenigol/rheoli.

| **Tynnu'r lwfansau criw dydd sy'n cael eu talu ar hyn o bryd i ddiffoddwyr tân criw dydd** | | |
|---|---|---|
| Mae'r gorsafoedd criw dydd yng Nghaergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno a Bae Colwyn. Mae cyfraddau cyflogau a lwfansau criw dydd amser cyflawn yn uwch na chyfraddau cyflogau shifftiau 24 awr. | | |
| O: | | |
| | 2 X 1 = 2 Rheolwr Gwylfa A | £101,435 |
| Un peiriant criw dydd, 2 shifft | 2 X 2 = 4 Rheolwr Criw | £193,838 |
| Yn ogystal â pheiriant RDS (heb ei gostio yn y fan yma) | 2 X 4 = 8 Diffoddwr Tân | £352,273 |
| | | **£647,546** |
| To: | | |
| | 2 X 1 = 2 Rheolwr Gwylfa A | £90,296 |
| Un peiriant criw dydd, 2 shifft | 2 X 2 = 4 Rheolwr Criw | £171,988 |
| Yn ogystal â pheiriant RDS (heb ei gostio yn y fan yma) | 2 X 4 = 8 Diffoddwr Tân | £310,260 |
| | | **£572,544** |
| **Arbedion am bob gorsaf criw dydd:** | | |
| | Rheolwr Gwylfa (wedi tynnu lwfansau) | -£11,140 |
| | Rheolwr Criw (wedi tynnu lwfansau) | -£21,849 |
| | Diffoddwr Tân (wedi tynnu lwfansau) | -£42,013 |
| | | **£75,002** |

**PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED (ENGHREIFFTIAU YN UNIG)**

**Arbedion cysylltiedig:**

-

**Goblygiadau cyfreithiol:**

Angen sicrhau prosesau teg ar gyfer tynnu lwfansau. Byddai angen asesiadau effaith i sicrhau nad oes unrhyw broblemau cydraddoldeb.

**Yn bosibl:**

- Gweithredu diwydiannol yn yr holl ardal (nid dim ond yn yr orsaf dan sylw);
- Ymgyrchoedd lleol, diddordeb yn y newid gan y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Peidio â chael yr arbedion a ragwelir – e.e. arbedion yn rhan o'r flwyddyn yn unig wrth i'r trafodaethau/heriau barhau;
- Costau cyfreithiol yn gysylltiedig ag amddiffyn/gweithredu'r newidiadau arfaethedig (yn gysylltiedig ag ymgynghori a chyflogau/cyflogaeth);
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â phrosesau negodi cyflogau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â rheoli diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau.

| Cau gorsaf dân RDS a/neu dynnu'r peiriant RDS o un o'r wyth gorsaf amser cyflawn | | | |
|---|---|---|---|
| Mae peiriant tân RDS ar gael ar 36 o orsafoedd tân RDS, ac 8 o orsafoedd tân amser cyflawn. Mae'r gorsafoedd tân amser cyflawn yng Nghaergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno a Bae Colwyn (criw dydd); Y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (shifft 24 awr). | | | |
| O: | RDS | Contract 100% | Contract 75% |
| | 1 X Rh.G. A | £6,960 | £5,580 |
| | 2 X Rh. Criw | £12,446 | £10,628 |
| | 9 X Diff. Tân | £50,517 | £43,142 |
| | | **£69,922** | **£59,391** |
| I: | RDS | Contract 100% | Contract 75% |
| | 0 X Rh.G. A | £0 | £0 |
| | 0 X Rh. Criw | £0 | £0 |
| | 0 X Diff. Tân | £0 | £0 |
| | | **£0** | **£0** |

**Arbedion am bob achos o dynnu peiriant RDS/cau gorsaf RDS:**

Tua £65,000 am elfennau tâl cadw (byddai angen cyfrifo pob un yn unigol), ond byddai ffioedd digwyddiadau yn dal yn daladwy i griwiau RDS am ddod o rywle arall.

**PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED (ENGHREIFFTIAU YN UNIG)**

**Arbedion cysylltiedig:**
Fflyd (e.e. cost cynnal a chadw ac adnewyddu 1 peiriant tân a chyfarpar arno ar gyfer pawb).
Staff (e.e. cyfarpar personol, hyfforddiant, TGCh a gweinyddu cyflogaeth tua 14 o weithwyr ymhob criw RDS).
Adeiladau (e.e. cynnal a chadw, gwresogi a goleuadau, dŵr a threthi eraill).

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Angen sicrhau prosesau teg ar gyfer diswyddo staff (ymgynghori, meini prawf dethol, sail busnes ar gyfer diswyddo, dewisiadau eraill ac ati. Angen asesiadau effaith i ganfod materion yn ymwneud â chydraddoldeb/y Gymraeg.
Angen meini prawf clir ar gyfer dewis gorsafoedd i'w cau/criwiau i'w tynnu er mwyn osgoi heriau i'r cynigion.

**Yn bosibl:**

- Gweithredu diwydiannol ledled yr holl ardal (nid yn unig yn yr orsaf dan sylw);
- Ymgyrchoedd lleol, diddordeb yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol i'r mater o gau/tynnu;
- Gwahaniaethau barn ynglŷn â pha orsafoedd RDS i'w cau a pha rai i'w cadw;
- Cymunedau gwledig ac ardaloedd eang heb orsaf dân;
- Amseroedd cyrraedd hirach, gan gynnwys i ddigwyddiadau sydd angen mwy nag un peiriant i ddelio â'r digwyddiad (effaith ar ddiogelwch y cyhoedd ac ar systemau gwaith diogel i ddiffoddwyr tân);
- Peidio â chael yr arbedion a ragwelir – yn rhyfedd, oherwydd bod yr arbedion posibl i'w cael mewn gorsafoedd RDS sydd â lefelau staff llawn ac sy'n darparu'r cyfraddau argaeledd gorau, byddai angen eu hystyried fel rhan o'r meini prawf dethol er mwyn cael y siawns orau o gael yr arbedion a ragwelir;
- Costau cyfreithiol yn gysylltiedig ag amddiffyn/gweithredu'r newidiadau arfaethedig (e.e. yn gysylltiedig ag ymgynghori a chyflogau/cyflogaeth);
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â phrosesau negodi cyflogau;
- Mwy o faich gwaith yn gysylltiedig â rheoli diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau;
- Mwy o faich gwaith/costau yn gysylltiedig â naill ai werthu gorsafoedd tân neu gadw'r adeilad gwag yn y cyfamser;
- Llai o bosibilrwydd o gydweithio lleol/digwyddiadau cymunedol yn y dyfodol a gallai derfynu trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer rhannu cyfleusterau â'r heddlu a phartneriaid eraill;
- Cyfraddau cadw gwell oherwydd tâl uwch i griwiau RDS sy'n mynd at fwy o ddigwyddiadau **NEU** gyfraddau cadw gwaeth gan fod mwy o weithgarwch yn ei gwneud yn anos ei wneud gyda'u prif gyflogaeth ac ymrwymiadau eraill.

Atodiad 9

## Map o Ogledd Cymru yn dangos lleoliadau gorsafoedd tân

